



CYHOEDDWDYD / ISSUED: 15/06/2023

**DEDDF DRWYDDEDU 2003 | LICENSING ACT 2003**  
**TRWYDDED ANHEDDAU | PREMISES LICENCE**

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

Rhif trwydded | Premises licence number: **PRM 0588 (Cyhoeddwyd | Issued : 15/06/2023)**

**Rhan 1 – Manylion am y safle | Part 1 - Premises details**

**Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad:  
Postal address of premises, or if none, ordnance survey map reference or description:**

**STARLING CLOUD  
BOULEVARD St. BRIEUC,**

**Tref bost | Post town**

**ABERYSTWYTH**

**Côd Post | Post cod**

**SY23 3TL**

**Rhif ffôn | Telephone number**

**Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau | Where the licence is time limited the dates  
NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED  
PREMISES LICENCE IS NOT TIME LIMITED**

**Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded:  
Licensable activities authorised by the licence:**

**ADLONIAENT | REGULATED ENTERTAINMENT  
DRAMAU / FILMIAU  
CHWARAEON DAN DO / INDOOR SPORTING EVENTS  
CERDDORIAETH FYW | LIVE MUSIC  
CERDDORIAETH WEDI'U RECORDIO | RECORDED MUSIC  
DAWSIO | DANCING  
LLUNIAETH HWYR Y NOS | LATE NIGHT REFRESHMENT  
ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL**

**Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**  
**The times the licence authorises the carrying out of licensable activities**

**ADLONIAENT | REGULATED ENTERTAINMENT**  
**DRAMAU / FILMIAU**  
**CHWARAEON DAN DO / INDOOR SPORTING EVENTS**  
**CERDDORIAETH FYW | LIVE MUSIC**  
**CERDDORIAETH WEDI'U RECORDIO | RECORDED MUSIC**  
**DAWNSIO | DANCING**  
**LLUNIAETH HWYR Y NOS | LATE NIGHT REFRESHMENT**  
**ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL**

**GWEITHGAREDDAU UCHOD ALL ABOVE ACTIVITIES:**  
**SUL-IAU / SUN to THURS:- 10:00 to 24:00 hrs GWE – SAD / FRI & SAT:- 10:00 to 01:00**  
**AMSERAU ANSAFONOL / NON STANDARD TIMINGS:**  
**PENWYTHNOSAU GWYL Y BANC h.y SUL a LLUN yn unig – Awr Terfynol 0100 / BANK**  
**HOLIDAY WEEKENDS i.e. SUN & MON only – terminal hour 01:00.**  
**NOSWYL NADOLIG, DYDD SAN STEFFAN, DYDD CALAN, POB DYDD SEINTIAU – Awr**  
**Terfynol 0100 / CHRISTMAS EVE, BOXING DAY, NEW YEARS DAY, ALL SAINTS DAYS –**  
**terminal hour 01:00.**  
**NOSWYL CALAN: 1000 – 0100 ar yr 2il IONAWR / NEW YEARS EVE: 10:00 to 01:00 ON 2<sup>nd</sup>**  
**JANUARY.**

**Oriau agor y safle | The opening hours of the premises**

**SUL-IAU / SUN-THURS: 07:00-00:30**  
**GWE-SAD / FRI-SAT: 07:00-01:30**

**AMSERAU ANSAFONOL | NON-STANDARD TIMINGS:**  
**Bydd yr adeilad yn cau 30 munud wedi diwedd pob amser ansafonol / Premises will close 30**  
**minutes following the conclusion of each non standard timing.**

**Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle**  
**neu oddi yno**

**Where the licence authorises supplies of alcohol whether these are on and/ or off supplies**

**AR AC ODDI AR Y SAFLE | ON AND OFF SALES**

**Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol) deilydd y drwydded safle**  
**| Name, (registered) address, telephone number and email (where relevant) of holder of**  
**premises licence**

**MARSTON'S PLC**  
**ST JOHNS HOUSE**  
**ST JOHNS SQUARE**  
**WOLVERHAMPTON**  
**WV2 4BH**

**Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n berthnasol)**  
**Registered number of holder, for example company number, charity number (where applicable)**

**31461**

**Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol | Name, address and telephone number of designated premises supervisor where the premises licence authorises the supply of alcohol**

**GRANT THOMAS**

**Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol**  
**Personal licence number and issuing authority of personal licence held by designated premises supervisor where the premises licence authorises for the supply of alcohol**

**PERS/N/2144**

**CYNGOR SIR PENFRO / PEMBROKESHIRE COUNTY COUNCIL**

## **ATODIAD 1 - AMODAU GORFODOL**

### **1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i'r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.
- (2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-
  - (a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â'r drwydded safle, neu
  - (b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.
- (3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle'n gorfod cael ei gyflenwi neu'i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

### **2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.
- (2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau'n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.
- (3)
  - (a) pan nad yw'r corff categoreiddio ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded, neu
  - (b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.
- (4) Yn yr adran hon -  
Mae "plant" yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae "corff categoreiddio ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy'n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

### **3 Amod gorfodol: goruchwyllo drysau**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o'r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
- (2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy'n gofyn am osod amod o'r fath -
  - (a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu
  - (b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-
    - (i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Atodlen honno (safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu
    - (ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o'r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).
- (3) At ddibenion yr adran hon -
  - (a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Atodlen honno'n berthnasol ar ei gyfer, a
  - (b) bod paragraff 8(5) o'r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Atodlen honno.

**Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014**

**Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014**

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.
2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-
  - (a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(6);
  - (b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –
$$P = D + (D \times V)$$
pan mai –
    - (i) P yw'r pris a ganiateir
    - (ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a
    - (iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol
  - (c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw
    - (i) Deiliad y drwydded safle,
    - (ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu
    - (iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;
  - (d) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac
  - (e) ystyr "treth ar werth" yw treth ar werth sy'n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)
3. Os nad yw'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i'r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai'r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw'r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi'i dalgrynnu i fyny i'r geiniog agosaf.
4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw'r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod ("y diwrnod cyntaf") yn wahanol i'r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf ("yr ail ddiwrnod") o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu'r dreth ar werth.  
  
(2) Mae'r pris a ganiateir sy'n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy'n digwydd cyn i'r cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

**Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014**

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014**.

**Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.**

1. (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

2. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

3. (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

4. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ pint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

## **Annex 1 - MANDATORY CONDITIONS**

### **1 Mandatory conditions where licence authorises supply of alcohol**

- (1) Where a premises licence authorises the supply of alcohol, the licence must include the following conditions.
- (2) The first condition is that no supply of alcohol may be made under the premises licence-
  - (a) at a time when there is no designated premises supervisor in respect of the premises licence, or
  - (b) at a time when the designated premises supervisor does not hold a personal licence or his personal licence is suspended.
- (3) The second condition is that every supply of alcohol under the premises licence must be made or authorised by a person who holds a personal licence.

### **2 Mandatory condition: exhibition of films**

- (1) Where a premises licence authorises the exhibition of films, the licence must include a condition requiring the admission of children to the exhibition of any film to be restricted in accordance with this section.
- (2) Where the film classification body is specified in the licence, unless subsection (3)(b) applies, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that body.
- (3) Where-
  - (a) the film classification body is not specified in the licence, or
  - (b) the relevant licensing authority has notified the holder of the licence that this subsection applies to the film in question, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that licensing authority.
- (4) In this section - "children" means persons aged under 18; and "film classification body" means the person or persons designated as the authority under section 4 of the Video Recordings Act 1984 (c.39) (authority to determine suitability of video works for classification).

### **3 Mandatory condition: door supervision**

- (1) Where a premises licence includes a condition that at specified times one or more individuals must be at the premises to carry out a security activity, the licence must include a condition that each such individual must be licensed by the Security Industry Authority.
- (2) But nothing in subsection (1) requires such a condition to be imposed-
  - (a) in respect of premises within paragraph 8(3)(a) of Schedule 2 to the Private Security Industry Act 2001 (c.12) (premises with premises licenses authorising plays or films), or
  - (b) in respect of premises in relation to-
    - (i) any occasion mentioned in paragraph 8(3)(b) or (c) of that Schedule (premises being used exclusively by club with club premises certificate, under a temporary event notice authorising plays or films or under a gaming licence), or
    - (ii) any occasion within paragraph 8(3)(d) of that Schedule (occasions prescribed by regulations under that Act).
- (3) For the purposes of this section-

- (a) "security activity" means an activity to which paragraph 2(1)(a) of that Schedule applies, and
- (b) paragraph 8(5) of that Schedule (interpretation of references to an occasion) applies as it applies in relation to paragraph 8 of that Schedule.

**The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2014**

**With effect from 28<sup>th</sup> May 2014**

1. A relevant person shall ensure that no alcohol is sold or supplied for consumption on or off the premises for a price which is less than the permitted price.
2. For the purposes of the condition set out in paragraph 1-
  - (a) "duty" is to be construed in accordance with the Alcoholic Liquor Duties Act 1979;
  - (b) "permitted price" is the price found by applying the formula –
$$P = D + (D \times V)$$
where –
    - (i) P is the permitted price
    - (ii) D is the rate of duty chargeable in relation to the alcohol as if the duty were charged on the date of the sale or supply of the alcohol, and
    - (iii) V is the rate of value added tax chargeable in relation to the alcohol as if the value added tax were charged on the date of the sale or supply of the alcohol
  - (c) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a premises licence –
    - (i) The holder of the premises licence,
    - (ii) The designated premises supervisor (if any) in respect of such a licence, or
    - (iii) The personal licence holder who makes or authorises a supply of alcohol under such a licence;
  - (d) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a club premises certificate, any member or officer of the club present on the premises in a capacity which enables the member or officer to prevent the supply in question; and
  - (e) "valued added tax" means value added tax charged in accordance with the Value Added Tax Act 1994
3. Where the permitted price given by Paragraph (b) of paragraph 2 would (apart from this paragraph) not be a whole number of pennies, the price given by that sub-paragraph shall be taken to be the price actually given by that sub-paragraph rounded up to the nearest penny.

4. (1) Sub-paragraph (2) applies where the permitted price by Paragraph (b) of paragraph 2 on a day (“the first day”) would be different from the permitted price on the next day (“the second day”) as a result of a change to the rate of duty or value added tax.

(2) The permitted price which would apply on the first day applies to sales or supplies of alcohol which take place before the expiry of the period of 14 days beginning on the second day.

### **The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) (Amendment) Order 2014**

The below Mandatory Conditions **replace** the Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2010 and comes into effect **on 1<sup>st</sup> October 2014**

**Conditions 1 to 4 refer to all premises that sell or supply alcohol for consumption on the premises. Condition 3 is relevant to Premises that sell for consumption off the premises.**

1. (1) The responsible person must ensure that staff on relevant premises do not carry out, arrange or participate in any irresponsible promotions in relation to the premises.

(2) In this paragraph, an irresponsible promotion means any one or more of the following activities, or substantially similar activities, carried on for the purpose of encouraging the sale or supply of alcohol for consumption on the premises—

(a) games or other activities which require or encourage, or are designed to require or encourage, individuals to—

(i) drink a quantity of alcohol within a time limit (other than to drink alcohol sold or supplied on the premises before the cessation of the period in which the responsible person is authorised to sell or supply alcohol), or

(ii) drink as much alcohol as possible (whether within a time limit or otherwise);

(b) provision of unlimited or unspecified quantities of alcohol free or for a fixed or discounted fee to the public or to a group defined by a particular characteristic in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(c) provision of free or discounted alcohol or any other thing as a prize to encourage or reward the purchase and consumption of alcohol over a period of 24 hours or less in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(d) selling or supplying alcohol in association with promotional posters or flyers on, or in the vicinity of, the premises which can reasonably be considered to condone, encourage or glamorise anti-social behaviour or to refer to the effects of drunkenness in any favourable manner;

(e) dispensing alcohol directly by one person into the mouth of another (other than where that other person is unable to drink without assistance by reason of disability).

2. The responsible person must ensure that free potable water is provided on request to customers where it is reasonably available.

3. (1) The premises licence holder or club premises certificate holder must ensure that an age verification policy is adopted in respect of the premises in relation to the sale or supply of alcohol.

(2) The designated premises supervisor in relation to the premises licence must ensure that the supply of alcohol at the premises is carried on in accordance with the age verification policy.

(3) The policy must require individuals who appear to the responsible person to be under 18 years of age (or such older age as may be specified in the policy) to produce on request, before being served alcohol, identification bearing their photograph, date of birth and either—

- (a) a holographic mark, or
- (b) an ultraviolet feature.

4. The responsible person must ensure that—

(a) where any of the following alcoholic drinks is sold or supplied for consumption on the premises (other than alcoholic drinks sold or supplied having been made up in advance ready for sale or supply in a securely closed container) it is available to customers in the following measures—

- (i) beer or cider: ½ pint;
- (ii) gin, rum, vodka or whisky: 25 ml or 35 ml; and
- (iii) still wine in a glass: 125 ml;

(b) these measures are displayed in a menu, price list or other printed material which is available to customers on the premises; and

(c) where a customer does not in relation to a sale of alcohol specify the quantity of alcohol to be sold, the customer is made aware that these measures are available.”

## Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu

### a) Cyffredinol

Mae hwn yn gais ar gyfer safle newydd sydd i'w adeiladu. Bydd y safle'n cael ei redeg gan Marston's Inns & Taverns, sef Adran Reoledig Marston's PLC a bydd yn cynnwys llety ar y safle ar gyfer y Rheolwr Cyffredinol.

Mae Marston's PLC wedi adeiladu safleoedd o natur debyg yn y gorffennol ac yn yr achos hwn bydd y safle'n gweithredu'n unol â'r cysyniad brand a elwir yn 2 am 1. Mae'r rhain yn dafarndai traddodiadol mawr, cyfeillgar, ond yn ystod y dydd ac yn gynnwys fin nos mae'r pwyslais yn bendant ar gynnig bwyd ac mae'r safle wedi'i osod ar gyfer bwyta'n bennaf. Yn hwyrach fin nos, mae'r safle'n canolbwyntio mwy ar gynnig diodydd. Yn y pen draw mi fydd y safle'n elwa o allu cynnig llety mewn gwesty o fewn bloc a adeiladir ar dir y safle.

Bydd gweithgareddau trwyddedadwy eraill, yn enwedig adloniant wedi'i reoleiddio, yn atodol i'r ddarpariaeth bwyd ac alcohol.

Fel rhan o'r broses gyfan o ddatblygu'r safle, cynhelir adolygiad o insiweiddiad sŵn adeiladau'r safle yng nghyd-destun ei leoliad.

Mi fydd gwasanaeth gweini ar fyrddau ar gael yn ardaloedd y teras a'r ardd deuluol pan fo angen.

### b) Atal troseddau ac anhrefn

Mae ein cleientiaid wedi cynnal asesiad risg mewn perthynas â gweithredu'r uned hon, gan roi ystyriaeth i'r ardal y mae wedi'i lleoli ynddi, a'u profiad blaenorol o unedau o'r math hwn, eu dulliau gweithredu a'u heffaith ar yr ardal gyfagos.

Mewn perthynas ag atal troseddau ac anhrefn mae ein cleientiaid yn cynnig y camau canlynol i roi sylw i'r mater hwnnw:

1. Ni chaniateir mynd ag alcohol a diodydd eraill o'r safle mewn cynwysyddion agored ac eithrio i'w hyfed yn yr ardaloedd allanol a ddarperir i'r diben hwnnw.
2. Ni chaniateir mynediad i'r safle i gwsmeriaid sy'n cario poteli agored ar unrhyw adeg y mae'r safle ar agor i'r cyhoedd.
3. Ystyrir na fydd angen goruchwylwyr drysau yn sgil natur y gweithredu, ond mi fydd y cleientiaid yn cynnal asesiad risg os bydd unrhyw ddiogwyddiadau anarferol yn cymryd lle, a byddant yn ystyried cyflogi staff o'r fath os ydyn nhw'n ystyried bod hynny'n briodol.
4. Bydd unrhyw berson sy'n gyfrifol am ddiogelwch (fel y'i diffinnir gan baragraff 21a o Atodlen 12 Deddf Diogelwch Preifat 2001) yn meddu ar drwydded SIA.
5. Bydd unigolion o'r fath yn cael eu cyflogi ar y safle yn ôl disgrisiwn y goruchwylwr safle dynodedig/deiliad y drwydded safle.
6. Gosodir system CCTV a chedwir y delweddau am gyfnod o 28 diwrnod.

### c) Diogelwch cyhoeddus

Mae ein cleientiaid wedi cynnal asesiad risg mewn perthynas â diogelwch cyhoeddus.

Am fod hwn yn adeilad newydd, mi fydd yr holl offer yn cydymffurfio â'r safonau diweddaraf a'r Safonau Prydeinig cymeradwy.

Bydd ein cleientiaid yn sicrhau bod y gosodiadau a'r ffitiadau a ddarperir ar y safle o natur briodol.

Mae ein cleientiaid yn ymrwmo i gydymffurfio â gofynion rhesymol y Swyddog Tân o dro i dro.

Mae ein cleientiaid yn ymrwmo i gydymffurfio â gofynion rhesymol y Swyddog Rheoli Adeiladau. Beth bynnag yw'r achos, bydd angen sêl bendith yr awdurdodau statudol hyn cyn y gellir agor y safle i'r cyhoedd.

**d) Atal niwsans cyhoeddus.**

Mae ein cleientiaid wedi cynnal asesiad risg mewn perthynas â'r niwsans cyhoeddus a allai ddeillio o'r safle hwn.

Mae ein cleientiaid yn cynnig y canlynol:

1. Lle bo'n briodol, gosodir hysbysiadau amlwg a chlir ger pob allanfa, yn gofyn i aelodau'r cyhoedd i barchu anghenion y trigolion lleol, a gadael y safle a'r ardal yn dawel.
2. Bydd ein cleientiaid yn cynnal asesiad o insiwleiddiad sŵn y safle, ac yn gallu cadarnhau na fydd lefel y sŵn a'r dirgryniad a ddaw o'r safle'n ddigon i achosi niwsans i eiddo cyfagos.
3. Gallwn gadarnhau bod drysau a ffenestri'r safle o wydr dwbl.
4. Gallwn gadarnhau nad yw'r safle'n agos at unrhyw ddatblygiad preswyl.

**e) Amddiffyn plant rhag niwed.**

Bydd y cyfyngiadau a osodwyd yn Neddf Trwyddedu 2003 yn berthnasol. Ni nodwyd unrhyw risg anarferol neu ychwanegol i blant.

Ni ddangosir ffilmiau neu ffilmiau fideo o unrhyw ddisgrifiad fel bod modd i bobl sydd dan oed unrhyw ardystiad BBFC/awdurdod lleol perthnasol eu gwyllo.

## **Annex 2 - Conditions consistent with the operating Schedule**

### **a) General**

This is an application for new premises to be constructed. The premises will be operated by Marston's Inns and Taverns, the Managed Division of Marston's PLC and will have on site accommodation for the General Manager.

Marston's PLC have constructed premises of this nature previously and on this occasion the premises will operate to the brand concept known as 2 for 1. These are large friendly traditional public houses, however during the day and into the early evening a strong food offer is made and the premises is set out in a predominantly dining format. In the latter part of the evening the premises becomes more wet driven. The premises will eventually have the benefit of hotel accommodation within a block constructed within the grounds.

Other licensable activities, in particular regulated entertainment will be ancillary to the provision of food and alcohol.

As part of the overall development of the site a review of the sound insulation properties of the premises in context of its location will be undertaken.

The terrace area and family garden areas will have the provision of waitress service, when required.

### **b) The prevention of crime and disorder.**

Our clients have undertaken a risk assessment in connection with the operation of this unit taking into consideration the area in which it is located and their previous experience of units of this nature and their operation and impact on the immediate vicinity.

With regards to the prevention of crime and disorder our clients would offer the following steps in order to address this issue:

7. Alcoholic and other drinks may not be removed from the premises in open containers save for consumption in external areas provided for that purpose.
8. No customers carrying opened bottles upon entry shall be admitted to the premises at anytime the premises are open to the public.
9. It is considered that for the nature of the operation door supervisors will not be required, however, clients will undertake a risk assessment should unusual events take place and if they consider it appropriate will employ them.
10. Any persons exercising security (as defined by paragraph 21a of Schedule 2 of the Private Security Act 2001 shall be licensed by the Security Industry Authority)
11. Such persons will be employed at the premises at the discretion of the designated premises supervisor/holder of the premises licence.
12. CCTV system to be installed with recordings retained for a period of 28 days

### **c) Public safety**

Our clients have undertaken a risk assessment with regard to public safety.

As this is a new build all equipment will be to the latest standard and will be British Standard approved.

Our clients will ensure that fixtures and fittings provided to the premises will be of an appropriate nature.

Our clients undertakes to comply with the reasonable requirements of the Fire Officer from time to time.

Our client undertakes to comply with reasonable requirements of the Building Control Officer. In any event the approval of these statutory authorities will be required before the premises can open to the public.

**d) The prevention of public nuisance.**

Our clients have undertaken a risk assessment with regards to potential public nuisance emanating from this premises.

Our clients offer as follows:

5. Where appropriate prominent and legible notices shall be displayed at all exits requesting the public to respect the needs of the local residents and to leave the premises and area quietly.
6. Our clients will undertake a sound insulation assessment of the premises and can confirm that noise and vibration shall not emanate from the premises, so as to cause nuisance to nearby premises.
7. We can confirm that the doors and windows to the premises are double glazed.
8. We can confirm that the premises is away from residential development.

**e) The protection of children from harm.**

The restrictions set out in the Licensing Act 2003 will apply. No unusual or additional risk of harm to children have been identified.

No films or videos of any description will be shown so that they can be viewed by persons under the age of any applicable BBFC/local authority certification.

Children under the age of 16 shall not be permitted to enter or remain on the premises after 22:00 unless resident, dining with an adult or attending a pre booked function

**Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu**

**Annex 3 - Conditions attached after a hearing by the licensing authority/ Mediation meeting**

Atodiad 4 – Cynlluniau | Annex 4 – Plans

This drawing is the copyright of Axiom Architects.  
It is for feasibility purposes only & may not be reproduced in  
whole or in part without permission.  
The feasibility layout is subject to site survey and HES risk  
assessment.



